Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

# Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Mudo Anghyfreithlon

19 Mehefin 2023

## 1. Cyflwyniad

### Y Bil

**1.** Cyflwynwyd Bil Mudo Anghyfreithlon Llywodraeth y DU ("y Bil") i Senedd y DU ar 7 Mawrth 2023. Mae'r Bil wedi symud ymlaen ar ei daith drwy Dŷ'r Cyffredin, ac ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'n cael ei ystyried gan Dŷ'r Arglwyddi. Gwnaed cyfres o ddiwygiadau i'r Bil yn ystod ei hynt drwy Dŷ'r Cyffredin. Mae unrhyw gyfeiriadau at gymalau penodol yn yr adroddiad hwn at y Bil wedi'i ddywygio fel ar 27 Ebrill 2023,[1] oni nodir yn wahanol.

**2.** Mae'r Nodiadau Esboniadol i'r Bil a ddarparwyd gan Lywodraeth y DU yn datgan mai pwrpas y Bil yw creu cynllun lle bydd unrhyw un sy'n cyrraedd yn anghyfreithlon yn y Deyrnas Unedig ("y DU") yn cael ei symud yn brydlon i'w mamwlad neu i drydedd wlad ddiogel i gael unrhyw gais am loches wedi'i brosesu.[2]

**3.** Byddai'r Bil fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd yn:

- Gosod dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i wneud trefniadau i symud person sydd wedi dod i mewn i'r DU yn groes i gyfreithiau mudo ar ôl 7 Mawrth 2023, nad oes ganddynt ganiatâd i fod yn y DU ac na ddaethant yn uniongyrchol o fan lle mae arnynt ofn cael eu herlid. Os yw'r pedwar amod hynny'n berthnasol iddynt, mae dyletswydd ar yr

[1] Senedd y DU, 'Bil Mudo Anghyfreithlon', 27/04/23 (Saesneg yn unig)
[2] Llywodraeth y DU, 'Y Bil Mudo Anghyfreithlon: Nodiadau esboniadol', 27/04/23, tudalen 3 (Saesneg yn unig)

Ysgrifennydd Gwladol i wrthod unrhyw gais a datgan bod ceisiadau am loches yn annerbyniadwy.

- Sefydlu pwerau newydd i gadw'r bobl hynny sy'n dod o dan y trefniadau ar gyfer dyletswydd symud ac aelodau perthnasol o'u teulu.
- Newid deddfwriaeth caethwasiaeth fodern fel y byddai pobl ag achosion caethwasiaeth fodern yn cael eu hanghymhwyso rhag amddiffyniadau rhag cael eu symud ymaith.
- Cyfyngu ar bobl sydd wedi bod yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd symud ymaith a'u plant rhag cael statws mewnfudo neu ddinasyddiaeth Brydeinig yn y dyfodol.
- Ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol gyflwyno terfyn blynyddol ar nifer y lleoedd i'w darparu o dan rai llwybrau diogel a chyfreithiol o fynediad i'r DU.

**4.** Mae llyfrgell Tŷ'r Cyffredin wedi paratoi briff ar y Bil a hynt y Bil sy'n rhoi rhagor o wybodaeth gefndir.[3] Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi taflenni ffeithiau hefyd ar wahanol agweddau ar y Bil.[4]

## Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol

**5.** O dan Reol Sefydlog 29.1, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru osod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ("Memorandwm") mewn perthynas ag unrhyw Fil sy'n cael ei ystyried yn Senedd y DU sy'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru:

> *"(i) at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd (ac eithrio darpariaethau cysylltiedig, canlyniadol, trosiannol, dros dro, atodol neu ddarpariaethau arbed sy'n ymwneud â materion nad ydynt o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd); neu*
>
> *(ii) sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd."*[5]

[3] Gweler: Senedd y DU, 'Bil Mudo Anghyfreithlon 2022-23', 10/03/23 (Saesneg yn unig) a Senedd y DU, 'Bil Mudo Anghyfreithlon: Cynnydd y Bil', 24/04/23 (Saesneg yn unig)
[4] Llywodraeth y DU, 'Bil Mudo Anghyfreithlon', 31/05/23 (Saesneg yn unig)
[5] Senedd Cymru, 'Rheolau Sefydlog Senedd Cymru', Mawrth 2023, tudalen 182

**6.** Gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm ar y Bil ar 31 Mawrth 2023 mewn perthynas â chymalau 19 ac 20 o'r Bil.[6] Yn dilyn y diwygiadau a wnaed i'r Bil yn ystod ei daith drwy Dŷ'r Cyffredin, ar 26 Mai 2023, gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn ymwneud â chymalau 3, 55 a 56 y Bil diwygiedig.[7] Mae'r adroddiad hwn yn ystyried y ddau Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol.

## Dull o Gynnal Gwaith Craffu

**7.** Yn wreiddiol, cafodd y Memorandwm ei gyfeirio gan y Pwyllgor Busnes at y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, y Pwyllgor Llywodraeth Leol a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.[8] Ar 9 Mai 2023, cafodd y Memorandwm ei gyfeirio gan y Pwyllgor Busnes at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg hefyd. I ddechrau, gosodwyd dyddiad i'r pwyllgorau gyflwyno adroddiad ar 15 Mehefin 2023.[9]

**8.** Ar ôl i Lywodraeth Cymru osod y Memorandwm Atodol ar 26 Mai 2023, adolygodd y Pwyllgor Busnes y dyddiad cau i'r pwyllgorau gyflwyno adroddiad hyd at 19 Mehefin 2023.[10]

**9.** Gwnaethom gytuno i weithio ar y cyd â'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol i gasglu tystiolaeth ysgrifenedig am y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol. Ar 22 Mai fe wnaethom ysgrifennu at restr o sefydliadau penodol i ofyn am eu barn ar y Bil, ei effaith ar wasanaethau gofal a chymorth i blant yng Nghymru, deddfwriaeth berthnasol yng Nghymru, a hawliau'r Confensiwn.[11] Fe wnaethom ysgrifennu hefyd at y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn am eu barn ar y materion hynny, diweddariad ar drafodaethau Llywodraeth

[6] Llywodraeth Cymru, 'Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Mudo Anghyfreithlon', 31/03/23
[7] Llywodraeth Cymru, 'Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2): Y Bil Mudo Anghyfreithlon', 26/05/23
[8] Senedd Cymru, 'Amserlen i'w hystyried: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Mudo Anghyfreithlon', Ebrill 2023
[9] Senedd Cymru, 'Pwyllgor Busnes (Preifat) – Dydd Mawrth, 9 Mai 2023 09.00'
[10] Senedd Cymru, 'Amserlen i'w hystyried: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 2) ar y Bil Mudo Anghyfreithlon', Mai 2023
[11] Senedd Cymru, 'Llythyr ar y cyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a Chadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol at Randdeiliaid', 22/05/23

Cymru gyda Llywodraeth y DU am y Bil, a'r beichiau cost disgwyliedig a fyddai'n cael eu rhoi ar awdurdodau lleol Cymru o ganlyniad i ddarpariaethau yn y Bil.[12]

**10.** Mae Atodiad 1 yn nodi'r sefydliadau a ymatebodd i'n llythyr. Ymatebodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ("y Gweinidog") ar 7 Mehefin 2023.[13]

# 2. Y darpariaethau y ceisir cydsyniad ar eu cyfer

## Trosolwg o ddarpariaethau

### Cymal 3

**11.** O dan gymal 3 o'r Bil, mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol bŵer i wneud trefniadau ar gyfer symud plant ar eu pen eu hunain sydd wedi dod i mewn i'r DU yn groes i rai rheolau mewnfudo.

**12.** Diwygiwyd cymal 3 yn ystod camau Tŷ'r Cyffredin i gyflwyno cyfyngiadau ar bŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i symud plant o'r fath o'r DU. Effaith y cyfyngiadau hyn yw mai dim ond o dan rai amgylchiadau yn unig y gall yr Ysgrifennydd Gwladol wneud trefniadau ar gyfer eu symud (a bennir yng nghymal 3(3) - er enghraifft, i aduno plentyn â rhiant). Fodd bynnag, gall yr Ysgrifennydd Gwladol amrywio'r amgylchiadau hyn drwy reoliadau.

**13.** Mae cymal 2 o'r Bil yn gosod dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i wneud trefniadau i symud pobl i'w mamwlad neu drydedd wlad ddiogel sydd wedi dod i mewn i'r DU neu wedi cyrraedd y DU yn groes i reolau mewnfudo (y "ddyletswydd i symud"). Mae cymal 2 hefyd yn nodi pedwar amod y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i'r ddyletswydd hon fod yn gymwys i berson.

**14.** O dan gymal 3 o'r Bil fel y cafodd ei ddrafftio'n wreiddiol, rhoddwyd pŵer i wneud rheoliadau i'r Ysgrifennydd Gwladol i nodi categorïau pellach o bobl sydd wedi'u heithrio o'r ddyletswydd i'w symud o dan gymal 2. Cafodd y cymal ei ddiwygio i ddarparu y gall unrhyw reoliadau o'r fath alluogi datgymhwyso unrhyw ddarpariaeth yn y Bil neu ddeddfiad arall mewn perthynas â pherson y mae eithriad yn gymwys iddynt. At y dibenion hyn, gall yr Ysgrifennydd Gwladol

[12] Senedd Cymru, 'Llythyr ar y cyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a Chadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol at y Gweinidog Gofal Cymdeithasol a'r Prif Chwip a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol', 22/05/23
[13] Llywodraeth Cymru, 'Llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip', 07/06/23

wneud diwygiadau i unrhyw Ddeddfau neu Fesurau'r Senedd heb ofyn am gydsyniad y Senedd neu Weinidogion Cymru.

## Cymalau 19 a 20

**15.** Mae cymalau 15 i 20 gyda'i gilydd yn ymwneud â darparu llety i blant mudol ar eu pen eu hunain, trosglwyddo plant rhwng llety a ddarperir gan y Swyddfa Gartref a llety a ddarperir gan awdurdodau lleol, a throsglwyddiadau plant o un awdurdod lleol i un arall.

**16.** Mae Cymal 19 yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau penodol i'r Ysgrifennydd Gwladol i ymestyn y darpariaethau yng nghymalau 15-18 i Gymru. Fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, nid oes gofyniad i Lywodraeth y DU gael caniatâd y Senedd na Gweinidogion Cymru i wneud hynny.

**17.** Mae cymal 20 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth i sicrhau bod y Gwasanaeth Trosglwyddo Cenedlaethol (fel y nodir yn adran 69 o Ddeddf Mewnfudo 2016) yn parhau i weithio'n effeithiol yng nghyd-destun y Bil cyfan. Mae'r cymal yn hwyluso trosglwyddo o un awdurdod lleol yn y DU i un arall (gan gynnwys i ac o awdurdodau lleol yng Nghymru) plant ar eu pen eu hunain nad ydynt yn cael eu hystyried yn blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches unwaith y bernir bod eu ceisiadau'n annerbyniadwy.

## Cymalau 55 a 56

**18.** Mewnosodwyd cymalau 55 a 56 yn y Bil yn ystod cyfnod diwygio Tŷ'r Cyffredin. Maent yn ymwneud ag asesiadau oedran ar gyfer pobl sy'n cyrraedd y DU yn groes i reolau mewnfudo.

**19.** Mae cymal 55 yn dileu'r gallu i rywun sy'n bodloni'r ddyletswydd i ddileu amodau yng nghymal 2 (gweler baragraff 13) i apelio yn erbyn penderfyniad asesu oedran a wnaed o dan Ddeddf Cenedligrwydd a Ffiniau 2022.[14] Mae'r cymal hefyd yn datgan nad yw adolygiad barnwrol o'r penderfyniad yn atal y ddyletswydd i symud o dan y Bil rhag cael ei harfer, ac eithrio mewn dau achos cyfyngedig.

**20.** Mae cymal 56 yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau ynghylch effaith rhywun yn gwrthod cydsyniad ar gyfer asesiad oedran

[14] Gwnaethom adrodd ar Femorandwm y Bil Cenedligrwydd a Ffiniau ym mis Chwefror 2022. Gweler: Senedd Cymru, 'Bil Cenedligrwydd a Ffiniau: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol', 15/02/22

gwyddonol fel y'i gelwir. Gall y rheoliadau ganiatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried unigolyn nad yw'n cydsynio i gael ei drin fel oedolyn.

## Barn Llywodraeth y DU

### Ynghylch a oes angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd

Mae Llywodraeth y DU o'r farn nad yw'r darpariaethau yn y Bil yn ymwneud â materion sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.[15]

### Ynghylch materion polisi

**21.** Mae rhesymeg polisi Llywodraeth y DU dros y Bil wedi'i nodi yn y nodiadau esboniadol i'r Bil, sydd wedi'u diweddaru.[16] Mae gan y Bil bedwar prif amcan a nodwyd, sef:

- atal pobl rhag dod i mewn i'r DU yn anghyfreithlon;
- torri model busnes y rhwydweithiau smyglo pobl ac achub bywydau;
- symud yn haws y rhai nad oes ganddynt hawl i aros yn y DU; a
- darparu ar gyfer gosod uchafswm blynyddol ar nifer y bobl sydd i gael eu derbyn.

**22.** Rhai pwyntiau cyd-destunol ychwanegol a wnaed gan Lywodraeth y DU yn ei nodiadau esboniadol yw:

- Yn 2022, daeth dros 45,700 o bobl i'r DU yn anghyfreithlon ar ôl croesi Sianel Lloegr mewn cychod bach, ac roedd llawer ohonynt yn dod o wledydd diogel, a phob un ohonynt yn teithio trwy wledydd diogel. Cost flynyddol y system loches yw £3 biliwn.[17]
- Gall dulliau mynediad afreolaidd fod yn beryglus a gadael ymfudwyr yn agored i gamfanteisio arnynt gan grwpiau troseddau cyfundrefnol. Bu cynnydd sylweddol yn nifer y rhai sy'n cyrraedd ar gychod bach ers 2020, ac, yn 2022, roedd 90% (40,302 o 44,666 o'r rhai a gyrhaeddodd)

[15] Llywodraeth y DU, 'Y Bil Mudo Anghyfreithlon: Nodiadau esboniadol', 27/04/23, tudalen 12 (Saesneg yn unig)
[16] Llywodraeth y DU, 'Y Bil Mudo Anghyfreithlon: Nodiadau esboniadol', 27/04/23, tudalen 6 ymlaen (Saesneg yn unig)
[17] Llywodraeth y DU, 'Y Bil Mudo Anghyfreithlon: Nodiadau esboniadol', 27/04/23, tudalen 7 (Saesneg yn unig)

yn hawlio lloches neu wedi'u cofnodi fel rhywun yn dibynnu ar gais am loches.[18]

- Yn 2022, cafodd y DU fwy na 5,200 o geisiadau lloches gan blant ar eu pen eu hunain yn ceisio lloches. O'r ceisiadau hynny, y grŵp oedran mwyaf cyffredin yw pobl ifanc 16 ac 17 oed.[19]

## Barn Llywodraeth Cymru

### Ynghylch a oes angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 3, 19, 20, 55 a 56.

**23.** Mae cymal 3, fel y'i diwygiwyd, yn rhoi pŵer gwneud rheoliad i'r Ysgrifennydd Gwladol i addasu neu ddatgymhwyso unrhyw ddarpariaeth mewn Deddf neu Fesur y Senedd mewn cysylltiad â phennu eithriadau ychwanegol i'r ddyletswydd i symud yng nghymal 2. Dadl Llywodraeth Cymru yw y gallai'r pŵer hwn, mewn theori gael "effaith ar allu Senedd Cymru i ddeddfu ar faterion sydd o fewn cymhwysedd datganoledig", yn benodol mewn perthynas â phersonau sydd wedi'u heithrio o'r ddyletswydd i'w symud o dan gymal 2.[20]

**24.** Gallai cymal 19 ymestyn y darpariaethau yng nghymalau 15-18 (mewn perthynas â phlant mudol ar eu pen eu hunain) i Gymru. Barn Llywodraeth Cymru yw bod cymalau 15-19, pan gânt eu hystyried gyda'i gilydd, yn effeithio ar swyddogaeth awdurdodau lleol Cymru, ac unrhyw awdurdod datganoledig arall sy'n ymwneud â darparu gofal a chymorth i blant o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.[21] Yn ei llythyr atom, dadl y Gweinidog yw:

> *"Os bydd awdurdodau lleol yng Nghymru yn canfod bod yr unigolyn yn blentyn ag anghenion gofal a chymorth, gellir darparu'r rhain yn lleol – er na fydd Llywodraeth y DU yn darparu'r cyllid sydd ei angen i ddarparu gwasanaethau angenrheidiol os bydd yn ystyried bod y person ifanc yn*

---

[18] Llywodraeth y DU, 'Y Bil Mudo Anghyfreithlon: Nodiadau esboniadol', 27/04/23, tudalen 7 (Saesneg yn unig)
[19] Llywodraeth y DU, 'Y Bil Mudo Anghyfreithlon: Nodiadau esboniadol', 27/04/23, tudalen 8 (Saesneg yn unig)
[20] Llywodraeth Cymru, 'Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2): Y Bil Mudo Anghyfreithlon', 26/05/23, tudalennau 4-5
[21] Llywodraeth Cymru, 'Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Mudo Anghyfreithlon', 31/03/23, tudalennau 4-5

> *oedolyn. Os bydd Llywodraeth y DU yn ystyried bod y person ifanc yn oedolyn, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol o dan ddyletswydd i symud y person ifanc hwn ymaith o'r DU ni waeth beth fydd asesiadau awdurdodau lleol yng Nghymru."*[22]

**25.** Dadl Llywodraeth Cymru yw bod gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol i wneud darpariaethau sy'n ymdrin â throsglwyddo plant ar eu pen eu hunain rhwng awdurdodau lleol. Felly, mae cymal 20 yn effeithio ar faes datganoledig gofal cymdeithasol.[23]

**26.** Mae cymal 55 yn dileu hawl person ifanc i apelio penderfyniad ar sail asesiad o'u hoedran. Mae cymal 56 yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau sy'n tybio oedran oedolyn pan fo cydsyniad yn cael ei ddal yn ôl i gymryd rhan yn yr hyn a elwir yn asesiad oedran gwyddonol. Dadl Llywodraeth Cymru yw bod y cymalau hyn yn gwrthdaro â'r gofynion a'r prosesau a nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a phecyn cymorth Asesu Oedran Llywodraeth Cymru.[24]

**27.** Mae'r Gweinidog yn cyfeirio at y darpariaethau hyn gyda'i gilydd fel "erydu'n gyfansoddiadol gymhwysedd Senedd Cymru i ddeddfu ar faterion sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol yng Nghymru".[25]

## Ynghylch materion polisi

Mae Llywodraeth Cymru yn argymell bod y Senedd yn gwrthod rhoi ei chydsyniad deddfwriaethol ar gyfer cymalau 3, 19, 20, 55 a 56.

**28.** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi ei safbwynt polisi mewn perthynas â'r Bil Mudo Anghyfreithlon yn ei Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol:

> *"Yng Nghymru, rydym yn trin pob plentyn ar ei ben ei hun sy'n ceisio lloches fel plentyn sy'n derbyn gofal yn unol â Rhan 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r Ddeddf hefyd yn darparu ar gyfer amrywiaeth o swyddogaethau asesu i helpu awdurdodau lleol Cymru i*

[22] Llywodraeth Cymru, 'Llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip', 07/06/23, tudalen 4
[23] Llywodraeth Cymru, 'Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Mudo Anghyfreithlon', 31/03/23, tudalen 5
[24] Llywodraeth Cymru, 'Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2): Y Bil Mudo Anghyfreithlon', 26/05/23, tudalennau 5-6
[25] Llywodraeth Cymru, 'Llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip', 07/06/23, tudalen 1

> *ystyried anghenion gofal a chymorth plant yn eu hardal … Nid yw darpariaethau'r Bil Mudo Anghyfreithlon, fel y'i cyflwynwyd, yn cydnabod y cyd-destun datganoledig.”*

Mae’n ychwanegu nad yw Llywodraeth Cymru’n cefnogi “unrhyw leihau ar rôl arweiniol, awdurdodol gweithwyr cymdeithasol o ran asesu'r hyn sydd orau i’r plant yn eu gofal.”[26]

**29.** Mae Llywodraeth Cymru yn codi pryder penodol am gymal 55, sy'n dileu hawl pobl ifanc i apelio yn erbyn penderfyniadau asesiadau oedran a wneir o dan Ddeddf Cenedligrwydd a Ffiniau 2022. Aiff yn ei blaen i ddadlau y canfyddir bod tua dwy ran o dair o'r penderfyniadau asesu oedran cychwynnol yn cael eu canfod yn anghywir yn ddiweddarach.[27] Mae llythyr y Gweinidog hefyd yn codi pryder "y caiff plant eu trin fel oedolion, naill ai am eu bod yn gwrthod cydsynio i ddulliau ymwthiol o asesu oedran yr honnir eu bod yn rhai ‘gwyddonol’ neu am fod y Swyddfa Gartref wedi dileu'r hawl i apelio yn erbyn penderfyniad asesiad o oedran.", a dywed y bydd hyn yn creu pryderon yng Nghymru ynghylch diogelu a’i fod yn groes i argymhellion 2022 Pwyllgor Cynghori Gwyddonol Amcangyfrifon Oedran y Swyddfa Gartref (AESAC).[28]

**30.** Yn ogystal, roedd Llywodraeth Cymru o’r farn:

- Pan ddefnyddir darpariaethau cymalau 15-18 yng Nghymru, byddai plentyn yn cael ei dynnu o ofal yr awdurdod lleol. Mae'r Gweinidog yn honni ei bod "yn anochel y bydd hyn yn amharu ar allu'r plentyn hwnnw i arfer ei hawliau a pharhau i fod wedi'i integreiddio yn y gymuned y mae wedi bod yn byw ynddi."[29]

- Nid yw'r nodiadau esboniadol i'r Bil yn darparu unrhyw wybodaeth am y costau ariannol a osodir gan y cymalau y mae Llywodraeth Cymru yn credu sy'n gofyn am gydsyniad y Senedd.

[26] Llywodraeth Cymru, ‘Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2): Y Bil Mudo Anghyfreithlon‘, 26/05/23, tudalen 4
[27] Llywodraeth Cymru, ‘Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2): Y Bil Mudo Anghyfreithlon‘, 26/05/23, tudalen 5
[28] Llywodraeth Cymru, 'Llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip', 07/06/23, tudalen 2
[29] Llywodraeth Cymru, 'Llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip', 07/06/23, tudalen 2

- Mae Llywodraeth y DU wedi methu â chadarnhau bod y Bil yn gydnaws â hawliau'r Confensiwn.[30] Mae'r Gweinidog yn nodi yn ei llythyr:

 *"Yn ogystal â'r ffaith ei fod yn torri Cyfraith Hawliau Dynol Ryngwladol yn ôl pob tebyg, mae darpariaeth yn y Bil yn lleihau cwmpas mesurau diogelu hawliau dynol yn y DU gan ddileu mesurau diogelu o'r fath yn gyfan gwbl mewn rhai achosion. Wrth wneud hynny, mae'r DU yn torri ei rhwymedigaethau o dan y Confensiwn ymhellach. Mae hyn yn gwbl anghydnaws â'r lle canolog sydd gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 yn y setliad datganoli."*[31]

**31.** Dywed llythyr y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol hefyd, "Yn anffodus, er gwaethaf trafodaethau, nid yw Llywodraeth y DU wedi cynnig ymdrin â'n pryderon yn rhagweithiol a dod o hyd i ffyrdd o sicrhau y bydd awdurdodau lleol yn parhau i chwarae rôl arweiniol mewn unrhyw ystyriaeth a roddir i fudd pennaf y plant hyn."[32] Daw'r Memorandwm atodol i'r casgliad:

> *"Ni allaf argymell bod y Senedd yn cydsynio â chynnwys y darpariaethau hyn yn y Bil, am nad wyf o'r farn ei bod yn briodol i'r ddarpariaeth hon gael ei gwneud mewn perthynas â gofal cymdeithasol yng Nghymru yn y Bil hwn."*[33]

# 3. Ein barn ni

## Ynghylch a oes angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd

**32.** Mae cymal 3 yn rhoi pewrau gwneud rheoliadau sy'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud diwygiadau i unrhyw Ddeddfau neu Fesurau'r Senedd, at ddibenion penodol, heb ofyn am gydsyniad y Senedd neu Weinidogion Cymru.

[30] Llywodraeth Cymru, 'Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2): Y Bil Mudo Anghyfreithlon', 26/05/23, tudalen 6
[31] Llywodraeth Cymru, 'Llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip', 07/06/23, tudalen 6
[32] Llywodraeth Cymru, 'Llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip', 07/06/23, tudalen 2
[33] Llywodraeth Cymru, 'Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2): Y Bil Mudo Anghyfreithlon', 26/05/23, tudalen 6

**33.** Mae cymal 19 yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau i'r Ysgrifennydd Gwladol i ymestyn darpariaethau penodol sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol i Gymru, gan effeithio felly ar faes datganoledig gofal cymdeithasol.

**34.** Mae cymal 20 yn hwyluso trosglwyddo rhai plant ar eu pen eu hunain o un awdurdod lleol yn y DU i un arall, sy'n effeithio ar faes datganoledig gofal cymdeithasol.

**35.** Mae cymalau 55 a 56 yn ymwneud ag asesiadau oedran ar gyfer personau sy'n cyrraedd y DU yn groes i reolau at ddibenion mewnfudo. Mae'r broses y mae gweithwyr proffesiynol gwaith cymdeithasol yn asesu oedran pobl ifanc wedi'i datganoli i Lywodraeth Cymru, ac mae wedi'i nodi mewn deddfwriaeth a chanllawiau yng Nghymru. Nid yw cymalau 55 a 56 yn cydnabod y ddeddfwriaeth neu'r canllawiau datganoledig hynny, gan effeithio, felly, ar y maes gofal cymdeithasol datganoledig.

**Conclusion 1.** Rydym yn cytuno â Llywodraeth Cymru bod angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar gyfer cymalau 3, 19, 20, 55 a 56. Nid yw Laura Jones AS na James Evans AS yn cytuno â'r casgliad hwn

**36.** Gwrthwynebodd Sioned Williams AS mewn egwyddor i unrhyw ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar faterion datganoledig Cymru gael eu deddfu drwy Fil Llywodraeth y DU.

## Ynghylch materion polisi

**37.** Gwnaethom ystyried nodiadau esboniadol Llywodraeth y DU i'r Bil, Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru, y dystiolaeth ysgrifenedig a ddaeth i law, a barn y Cyd-bwyllgor ar Hawliau Dynol.

**38.** Ar sail y wybodaeth sydd ar gael i ni ar hyn o bryd, rydym yn cytuno â Llywodraeth Cymru bod y darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol yng Nghymru yn amhriodol. Nid ydym yn cefnogi'r defnydd o'r hyn a elwir yn asesiadau oedran gwyddonol; nid ydym yn cytuno y dylid rhagdybio bod person ifanc sy'n gwrthod yr hyn a elwir yn asesiad oedran gwyddonol, yn oedolyn; ac nid ydym yn cytuno â dileu hawl person ifanc i apelio yn erbyn y penderfyniad asesu eu hoedran.

**39.** Rydym wedi ymrwymo i roi hawliau plant yn ganolog i bopeth a wnawn. Rydym yn pryderu'n fawr am y modd y mae'r Bil Mudo Anghyfreithlon yn diystyrru hawliau plant a hawliau dynol, fel y nodir i ni yn y dystiolaeth ac fel y

cydnabyddir gan Lywodraeth y DU yn ei hanallu i gadarnhau bod darpariaethau'r Bil yn gydnaws â hawliau'r Confensiwn.

**40.** Rydym yn argymell, felly, bod y Senedd yn gwrthod rhoi ei chydsyniad i gymalau 3, 19, 20, 55 a 56.

**41.** Nid yw Laura Jones AS a James Evans AS yn cytuno â'r safbwyntiau a nodir yn yr adran hon.

**Recommendation 1.** Dylai'r Senedd atal ei chydsyniad i gymalau 3, 19, 20, 55 a 56 gael eu cynnwys yn y Bil Mudo Anghyfreithlon. Nid yw Laura Jones AS a James Evans AS yn cytuno â'r argymhelliad hwn.

# Annex 1: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar wefan y Pwyllgor.

| Dyddiad | Sefydliad |
|---|---|
| 31 Mai 2023 | Y Groes Goch Brydeinig |
| 1 Mehefin 2023 | Y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol |
| 6 Mehefin 2023 | Sefydliad Bevan |
| 6 Mehefin 2023 | Plant yng Nghymru |
| 6 Mehefin 2023 | Ymateb ar y cyd gan Gymdeithas y Plant, Sefydliad Bevan a Chanolfan Gyfreithiol Plant Cymru. |
| 7 Mehefin 2023 | Llywodraeth Cymru |
| 8 Mehefin 2023 | Comisiynydd Plant Cymru |
| 8 Mehefin 2023 | Arolygiaeth Gofal Cymru |
| 9 Mehefin 2023 | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |